

DEALL CODAU COFRESTRU

Mae holl gymwysterau CBAC yn dilyn un neu ddau strwythur: **Llinol** neu **Unedol**

Cofrestriadau Llinol

Mae rhai manylebau TGAU CBAC yn llinol. Mae hyn yn golygu bod ymgeiswyr yn cael eu cofrestru ar gyfer eu hasesiadau ar gyfer pob pwnc ar ddiwedd eu cwrs astudio.

Ar gyfer y manylebau hyn, ac eithrio TGAU Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg, mae ymgeiswyr yn cael eu cofrestru ar gyfer **un cod cofrestru**. Mae hyn yn eu cofrestru ar gyfer pob cydran berthnasol o'r cwrs (a all gynnwys, er enghraifft, asesiad mewnol a dau arholiad ysgrifenedig).

Ar gyfer TGAU Ffrangeg, Almaeneg, a Sbaeneg, rhaid cofrestru ymgeiswyr hefyd ar ddiwedd eu cwrs astudio, ond mae pum cod y mae'n rhaid eu cofrestru ar gyfer pob ymgeisydd:

- Un cod am bob un o'r unedau (x4)
- Un cod 'cyfnewid' - cod cymhwyster yw hwn

Cofrestriadau Unedol

Mae holl fanylebau TAG CBAC, rhai o fanylebau TGAU CBAC, Dyfarniadau Galwedigaethol Lefel 1 a 2 (gan gynnwys ein Dyfarniadau Technegol newydd) a Thystysgrifau a Diplomâu Cymhwysol Lefel 3 yn rhai unedol. Mae hyn yn golygu bod y cymwysterau'n cael eu hadeiladu o unedau unigol, ac mae gan ganolfannau elfen o ddewis o ran y gyfres y bydd asesiadau ymgeiswyr yn cael eu cofrestru ynddi.

Er enghraifft, gall myfyrwyr sy'n astudio Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1 a 2 sefyll un o'u hunedau yn eu blwyddyn gyntaf o astudio (blwyddyn 10 fel arfer), a sefyll yr unedau sy'n weddill yn eu blwyddyn olaf o astudio (blwyddyn 11 fel arfer).

Rhaid cofrestru ymgeiswyr ar gyfer pob uned maen nhw'n ei sefyll yn y gyfres berthnasol, a byddant yn cael canlyniad uned ar gyfer yr unedau hyn ar y diwrnod canlyniadau perthnasol.

Pan fydd ymgeisydd yn cyrraedd diwedd y cwrs, rhaid ei gofrestru ar gyfer unrhyw uned(au) maen nhw'n eu sefyll yn y gyfres hon ynghyd â **chod cyfnewid**.

Codau Cyfnewid

Mae'r codau hyn yn ein hysbysu bod ymgeisydd wedi cyrraedd diwedd ei gwrs ac yn dymuno **agregu / ardystio**, h.y. mae'n dymuno derbyn tystysgrif.

Bydd cofrestru ar gyfer y cod hwn yn golygu ein bod yn cwblhau proses sy'n dod ag unrhyw ganlyniadau o'r unedau mae'r ymgeisydd wedi eu sefyll mewn cyfresi blaenorol at ei gilydd, yn ogystal ag yn y gyfresi lle mae'r cod cyfnewid yn cael ei gofrestru. Mae hyn yn ein galluogi i gyfrifo canlyniad cyffredinol ar gyfer y cymhwyster.

UCI (Dangosydd Ymgeisydd Unigryw)

I ymgeiswyr sy'n cofrestru ar gyfer cynlluniau unedol, mae'n bwysig iawn bod yr UCI cywir yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'u cofrestrriad. Mae hyn er mwyn i ni ddod o hyd i ganlyniad unrhyw unedau y maent wedi eu sefyll mewn cyfresi cyn cyfnewid.

Os oes gan ddysgwr UCI eisoes, rhaid parhau i'w ddefnyddio, hyd yn oed os cafodd ei gynhyrchu ar gyfer canolfan wahanol, rhif ymgeisydd gwahanol, bwrdd arholi gwahanol neu flwyddyn wahanol.

Gofynion Terfynol

Mae gan rai manylebau **ofyniad terfynol** - mae hyn yn golygu bod yn rhaid nodi cyfran benodol o'r cymhwyster, ac mewn rhai achosion uned benodol o'r cymhwyster, ynghyd â'r cod cyfnewid.

Mae gofynion terfynol yn bodoli ar gyfer:

- **TGAU unedol CBAC:** rhaid cofrestru ymgeiswyr am o leiaf 40% o'r asesiad cyfan yn y sesiwn derfynol (h.y. sesiwn arholiad lle mae'r dyfarniad yn cael ei gyfnewid), ac eithrio TGAU Cymraeg Ail Iaith. Ar gyfer y pwnc hwn, rhaid cymryd 75% o'r asesiad yn y sesiwn derfynol, gan gynnwys pob asesiad ar ffurf arholiad (unedau 3 a 4).
- **Lefel 1/2 Dyfarniadau Galwedigaethol (Dyfarniadau Technegol):** Mae gan y cymwysterau hyn ofyniad terfynol o 40% y mae'n rhaid ei fodloni gan yr uned a asesir yn allanol. Mae hyn yn golygu, os yw ymgeisydd yn cyfnewid, bod yn rhaid iddo hefyd gael ei gofrestru ar gyfer yr uned a asesir yn allanol yn yr un gyfresi. Dim ond y canlyniad o'r ymgais a wnaed yn y gyfresi y mae'r ymgeisydd yn cyfnewid y cymhwyster ynddi a ddefnyddir i gyfrifo'r radd gyffredinol derfynol, hyd yn oed os yw'n is nag ymgais blaenorol.

Y gyfresi gyntaf sydd ar gael i ardystio ar gyfer y cymwysterau hyn yw Ionawr 2024.

Strwythurau Cymwysterau a Gofynion Cofrestru

Math o fanyleb	Fformat	Gofynion cofrestru
CBAC TAG	Unedol	
CBAC TGAU	Llinol neu unedol	Ar gyfer pynciau unedol, gofyniad terfynol 40%, ar wahân i TGAU Cymraeg Ail Iaith. Ar gyfer y pwnc hwn mae gofyniad terfynol o 75% y mae'n rhaid iddo gynnwys unedau 3 a 4.
Tystysgrifau Galwedigaethol Lefel 1 a 2 (Hen fanyleb)	Unedol	
Tystysgrifau Galwedigaethol Lefel 1 a 2 (Dyfarniadau Technoleg Newydd)	Unedol	gofyniad terfynol o 40% y mae'n rhaid ei fodloni gan yr uned a asesir yn allanol.
Tystysgrifau/Diplomâu Cymhwysol	Unedol	
Bagloriaeth Cymru	Unedol	
Lefel Mynediad	Llinol	
Llwybrau Mynediad	Unedol	
Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru Consortiwm CBAC / City & Guilds	Unedol	

Adnoddau Cofrestrïadau Allweddol:

Tudalen cofrestrïadau CBAC	<ul style="list-style-type: none"> Llyfryn Dulliau Cofrestru a gwybodaeth am y Codau Canllaw i ofynion ailsefyll Ffioedd Cofrestru
Gwefan CGC (Cofrestrïadau)	<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth UCI Setiau Graddau Fformatau CGC
Adnodd Creu UCI	<ul style="list-style-type: none"> Adnodd ar gyfer creu UCI
cofrestru@cbac.co.uk	